**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 20 Mai 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau
Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol

**Teitl:** Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2014-15

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol i'r Pwyllgor ar gyfer 2014-15 sy'n rhoi barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn sy'n llywio'r 'datganiad llywodraethu blynyddol'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'prif weithredwr archwilio' ddarparu barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn ei wneud yn ofynnol iddynt ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r 'farn' gyffredinol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae Adroddiad Archwilio Mewnol 2014-15 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 ac yn dangos:

- bod y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi 'sicrwydd canolig' yn nigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg;
- nid oes unrhyw beth ynghlwm wrth 'farn' y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- lefel y gwaith a wnaeth yr Archwilwyr Mewnol i gyrraedd y 'farn' gyffredinol;
- sut y mae Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r PSIAS; a
- chrynodeb o berfformiad Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Amherthnasol - Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â’r adroddiad hwn.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol - Nid oes unrhyw gostau ynghlwm â'r adroddiad hwn, gan ei fod er gwybodaeth yn unig.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Amherthnasol - Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

## 8. Pa ymgynghori a wnaed â’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Amherthnasol - Nid oes unrhyw ofyniad i ymgynghori ar yr adroddiad hwn, gan ei fod yn darparu ‘barn’ annibynnol a gwrthrychol y Pennaeth Archwilio Mewnol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol - Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm â'r adroddiad hwn, gan ei fod er gwybodaeth yn unig.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Amherthnasol - Nid oes unrhyw risgiau ynghlwm â'r adroddiad hwn, gan ei fod er gwybodaeth yn unig.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Nid oes angen gwneud penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae gofyniad dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i’r 'pwyllgor archwilio' adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor a goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor.